

Mae Ofcom wedi gwrthod cais gan iMuxCo Wales Limited ("MuxCo"), deiliad y drwydded amblecs radio lleol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, i ymestyn yr ardal drwyddedig¹ ar gyfer ei wasanaeth er mwyn cynnwys Abertawe.

Cafodd y cais hwn ei gyflwyno gan MuxCo yn unol ag adran 54A o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996"). Mae'r adran hon yn mynnu bod Ofcom yn ymgynghori ar unrhyw geisiadau o'r fath cyn gwneud penderfyniad, ac felly cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Ionawr a 28 Chwefror 2017.

Cafodd Ofcom dri ymateb i'r ymgynghoriad – un gan ddeiliad trwydded amblecs radio lleol Abertawe, Switchdigital (S&S) Limited ("Switchdigital"), yn gwrthwynebu'r cais a dau ymateb arall gan unigolion a oedd yn cefnogi'r cais. Mae'r tri ymateb, ynghyd ag ymateb dilynol MuxCo a'r ddogfen ymgynghori, i'w gweld yn:

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/local-dab-change>

Ystyriaethau statudol

O dan adran 54A(6) o Ddeddf 1996, caiff Ofcom gymeradwyo cais i ehangu ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs radio lleol dim ond os yw'n fodlon na fyddai gwneud hynny'n cyfyngu'n annerbyniol ar ystod y rhaglenni a fyddai ar gael drwy wasanaethau rhaglenni sain digidol lleol i bobl leol ac sy'n gallu defnyddio'r gwasanaeth amblecs radio lleol dan sylw ar hyn o bryd (h.y. Canolbarth a Gorllewin Cymru yn yr achos penodol hwn).

Ni fyddai cynnig MuxCo yn newid ystod bresennol y gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol sydd ar gael yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac felly roedd Ofcom yn fodlon o ran y maen prawf statudol hwnnw.

Ystyriaethau polisi

Os yw Ofcom yn fodlon bod y cais yn bodloni telerau statud, caiff Ofcom ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a yw am gytuno ar y cais ai peidio.

Mae Ofcom wedi cyhoeddi polisi cyffredinol ar gyfer gweithredu ein pwerau o dan adran 54A. Mae'n datgan ein bod yn debygol o dderbyn ceisiadau i weithredu'r pwerau hynny os ydym yn fodlon o ran y meini prawf canlynol:

- bod gwneud hynny'n golygu cynnal neu hyrwyddo'r broses o ddatblygu darlledu sain digidol yn y DU mewn ffordd ar wahân i drwy loeren;
- bod cynlluniau arfaethedig y trwyddedai ar gyfer darpariaeth yn foddhaol;
- bod y trwyddedai'n gallu cynnal y gwasanaeth trwyddedig, a;

¹ Ystyr ardal drwyddedig yw ardal lle mae'n rhaid darparu gwasanaeth amblecs radio lleol, ac mae signalau darlledu o fewn yr ardal honno wedi'u diogelu rhag ymyrraeth. Mae'n bosib na fyddai gwasanaeth amblecs ar gael ym mhob rhan o'r ardal drwyddedig o reidrwydd, gan y bydd darpariaeth wirioneddol yr amblecs yn cael ei phennu gan y trefniadau trawsyrru.

- bod digon o drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu hawliau a buddiannau gorsafoedd sy'n cael eu cludo ar yr amblecs, a hawliau a buddiannau gweithredwyr amblecsau eraill (a'r gorsafoedd maent yn eu cludo).

Nod sylfaenol y polisi yw sicrhau strwythur lleol cynaliadwy ar gyfer DAB, a fyddai'n golygu bod modd symud i brosesau trawsyrru DAB lleol cyffredinol. Byddai defnyddwyr yn elwa o fwy o ddewis a chystadleuaeth o ran gwasanaethau, ehangu'r gwasanaethau hynny i ardaloedd heb wasanaeth, a'r swyddogaeth ychwanegol ar DAB. Felly, roedd hynny mewn golwg gennym wrth ystyried a allem fod yn fodlon – gan ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus – bod y pedwar maen prawf uchod ar gyfer polisi wedi'u bodloni yn yr achos hwn.

Wrth ystyried cais MuxCo yng nghyswllt y maen prawf cyntaf ar gyfer polisi a nodir uchod, roedd Ofcom wedi ystyried y ffaith na fyddai'r cais – petai'n cael ei gymeradwyo – yn arwain at ehangu'r ddarpariaeth DAB leol i gynnwys ardal heb wasanaeth, gan nad oes unrhyw newid arfaethedig i ddarpariaeth amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn wir, yn ei gais ar gyfer y newid, dywedodd MuxCo mai diben y cais oedd “cynnwys yn ffurfiol y ddarpariaeth [ar gyfer dinas a sir Abertawe] mae'r amblecs eisoes yn ei chynnig”. Ni fyddai'r cynnig yn darparu gwasanaeth mewn ardal heb wasanaeth gan fod gwasanaeth MuxCo eisoes yn cael ei ddarparu yn ardal Abertawe. Felly, ni fyddai'r ddarpariaeth ei hun yn cynyddu'r dewis i ddefnyddwyr o ran y gwasanaethau sydd ar gael yn ardal Abertawe (byddai gwrandawyr yn dal i gael y gwasanaethau maent yn gallu eu cael ar hyn o bryd), nac yn arwain at fwy o gystadleuaeth yn yr ardal honno.

Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, roedd Switchdigital hefyd yn dadlau y byddai'r cynnig i newid ardal drwyddedig MuxCo yn ffurfiol – petai'n cael ei gymeradwyo – yn gallu niweidio datblygiad darlledu DAB. Mae gwasanaeth Switchdigital wedi cael ei gynllunio a'i drwyddedu'n benodol ar gyfer ardal Abertawe, a byddai hyn yn cynyddu'r costau mae Switchdigital yn eu hwynebu ar gyfer gwella ddarpariaeth ei amblecs ei hun yn yr ardal honno (petai'n dewis gwneud hynny). Yn yr achos hwnnw, byddai'n rhaid i Switchdigital ddefnyddio trosglwyddydd ychwanegol er mwyn sicrhau na fyddai'n achosi ymyrraeth i amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru. Er ein bod yn cydnabod y byddai'n rhaid i Switchdigital ddefnyddio trosglwyddydd ychwanegol yn yr amgylchiadau hyn o bosib, nid ydym yn rhoi llawer o bwys ar y ddadl hon gan fod ddarpariaeth amblecs Abertawe eisoes yn eang iawn yn yr ardal mae MuxCo yn ceisio ei hychwanegu at ei ardal drwyddedig. Yn sgil hynny, nid yw'n ymddangos yn debygol iawn y byddai Switchdigital yn ceisio cynyddu ei ddarpariaeth yno.

Fel y nodir uchod, wrth ystyried ceisiadau fel hyn gan MuxCo, nod sylfaenol Ofcom yw ceisio hyrwyddo strwythur lleol cynaliadwy ar gyfer DAB, lle mae defnyddwyr yn elwa o fwy o ddewis a chystadleuaeth o ran gwasanaethau. Yn ei gais, dywedodd MuxCo y byddai cymeradwyo'r newid yn “gwneud yr amblecs yn fwy deniadol i ddarparwyr gwasanaeth posib, ac y byddai hynny'n gwneud yr amblecs yn fwy hyfyw yn ariannol”. Os byddai amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru yn fwy deniadol i ddarparwyr gwasanaeth posib, roedd Switchdigital yn dadlau yn ei ymateb i'r ymgynghoriad y byddai hynny ar draul ei amblecs ei hun yn Abertawe. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth gan y naill barti na'r llall i gefnogi eu safbwyntiau. Felly ni allai Ofcom lunio barn bendant ynghylch a fyddai'r estyniad arfaethedig yn effeithio ar ba mor ddeniadol fyddai amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru ac amblecs Abertawe neu'n debygol o effeithio ar hynny ac, os felly, sut byddai'n effeithio ar hynny.

Roedd y ddau arall a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r farn y byddai'r newid yn helpu i hyrwyddo DAB, ond dim ond un roddodd reswm perthnasol dros ei safbwynt – y bydd yn hyrwyddo diddordeb mewn gwasanaethau newydd a fydd yn dod ar yr awyr, a fydd yn arwain at gynnydd pellach o ran y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau DAB yng Ngorllewin Cymru. Fodd bynnag, gan na fyddai'r newid a gynigiwyd gan MuxCo yn effeithio o gwbl ar ddarpariaeth amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac yng ngoleuni'r diffyg tystiolaeth y byddai'r newid yn cael unrhyw effaith ar y ddarpariaeth bosib, nid oeddem yn argyhoeddedig y byddai'r newid yn cynnal neu hyrwyddo'r broses o ddatblygu darlledu sain digidol yn y DU mewn ffordd ar wahân i drwy loeren.

Wrth ystyried yr ail faen prawf ar gyfer polisi, nodwyd nad oedd MuxCo yn cynnig unrhyw newidiadau i'w drefniadau trawsyrru presennol, ac felly nid oedd yn rhaid i ni ystyried a oedd unrhyw gynlluniau arfaethedig ar gyfer y ddarpariaeth yn foddhaol.

O ran y trydydd maen prawf ar gyfer polisi, nodwyd mai MuxCo Cymru sy'n rhedeg amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru ers mis Awst 2013 a bod Nation Broadcasting yn berchen ar fwyafrif ohono, sydd â buddsoddiadau mewn tri amblecs DAB lleol arall ac yn rhedeg nifer o orsafoedd radio analog yng Nghymru. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu na fyddai MuxCo Cymru yn dal yn gallu cynnal ei wasanaeth trwyddedig (h.y. rhedeg amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru) petai'r cais am newid yn cael ei gymeradwyo, ac felly roeddem yn fodlon o ran ein trydydd maen prawf ar gyfer polisi.

Wrth ystyried y pedwerydd maen prawf ar gyfer polisi – a oes digon o drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu hawliau a buddiannau gorsafoedd sy'n cael eu cludo ar yr amblecs, a hawliau a buddiannau gweithredwyr amblecsau eraill (a'r gorsafoedd maent yn eu cludo) – mae Ofcom wedi ystyried datganiad MuxCo yn ei gais bod trefniadau diogelu o'r fath ar waith, a'i farn na fyddai “unrhyw effaith ar amblecsau DAB lleol eraill yn Ne Cymru”. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd ystyried ymateb Switchdigital, a oedd yn amlwg yn anghytuno â'r farn na fyddai'r newid yn cael unrhyw effaith ar amblecsau lleol eraill yn Ne Cymru.

Yn eu hymateb, cyfeiriodd MuxCo a Switchdigital at y Cynllun Ehangu DAB Lleol, cytundeb a wnaed rhwng y Llywodraeth, y BBC a gweithredwyr amblecsau DAB lleol (h.y. gan gynnwys MuxCo a Switchdigital) yn 2014 i ehangu a gwella'r ddarpariaeth DAB lleol er mwyn iddi gyfateb yn fras i ddarpariaeth FM bresennol y gwasanaeth radio masnachol lleol mwyaf ym mhob ardal lleol. Fel rhan o'r “trafodaethau ehangach â diwydiant” (h.y. y trafodaethau a arweiniodd at y cytundeb hwn), dywedodd MuxCo ei fod yn “credu bod digon o drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu hawliau a buddiannau gweithredwyr amblecsau eraill a'r gwasanaethau maent yn eu cludo”. Fodd bynnag, dywedodd Switchdigital nad oedd MuxCo wedi gwneud cais am yr estyniad hwn i'w ardal drwyddedig yn ystod y trafodaethau a arweiniodd at y cytundeb hwnnw. Felly ni chafodd yr estyniad ei ystyried ochr yn ochr â'r gyfres o newidiadau eraill i ardaloedd trwyddedig (ac amleddau) y gwnaed cais amdanynt gan bob gweithredwr amblecs lleol yn 2015 i helpu i hwyluso'r Cynllun Ehangu DAB Lleol² (h.y. “y trafodaethau ehangach â diwydiant” yr oedd MuxCo yn cyfeirio atynt). Yn sgil hynny, roedd barn MuxCo bod hawliau a buddiannau gweithredwyr amblecsau lleol eraill yn cael eu diogelu'n ddigonol ar sail y cytundeb hwnnw yn seiliedig ar drafodaethau a oedd heb roi sylw i'r newid i'r ardal drwyddedig mae MuxCo yn ei chynnig yn awr.

² <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/extend-dab-coverage>

O ganlyniad i'r uchod ac ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau a wnaed, nid ydym o'r farn bod gennym ddigon o dystiolaeth i fod yn sicr bod digon o drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu hawliau a buddiannau gweithredwyr amblecsau eraill.

Yn olaf, cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid derbyn cais MuxCo ai peidio, fe wnaethom hefyd ystyried a oedd unrhyw ffactorau eraill y dylem eu hystyried (gan gynnwys unrhyw ffactorau sy'n benodol i'r cais) a allai fod yn berthnasol wrth i ni ystyried y cais hwn.

Fel y nodwyd uchod, yn gyffredinol mae ardaloedd trwyddedig amblecs lleol wedi'u llunio i adlewyrchu ardaloedd golygyddol/trawsyrru y prif wasanaethau FM 'heritage' ym mhob ardal leol. Bwriad amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru oedd darparu gwasanaeth DAB sydd (i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol) yn cyfateb i ddarpariaeth gyfun gwasanaethau FM Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac y byddai amblecs Abertawe (y drwydded sydd gan Switchdigital) yn cyfateb i ddarpariaeth FM trwydded wreiddiol Abertawe (sydd gan The Wave ar hyn o bryd).

Hefyd, fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar Radio Digidol gan y Llywodraeth, gofynnwyd i Ofcom gynllunio darpariaeth DAB leol i sicrhau na fyddai gwrandawyr gwasanaethau FM lleol yn colli signal petai'r gwasanaeth analog yn cael ei ddiffodd. Ein bwriad ar gyfer y cynllun hwnnw (a fu'n destun ymgynghoriad) oedd cyfateb – mor agos â phosib – ardaloedd golygyddol gwasanaethau analog lleol yn hytrach na'r ardaloedd maent yn eu cyrraedd gyda signal.

Nid ydym o'r farn y byddai ymestyn ardal drwyddedig amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru i gynnwys Abertawe yn cyd-fynd â'r amcanion polisi craidd hyn na'n nod polisi sylfaenol a nodwyd uchod, gan y byddai'n 'ffurfioli' darpariaeth sy'n cyrraedd ardaloedd eraill yn hytrach nag ehangu darpariaeth DAB leol i gyfateb yn well i ddarpariaeth gwasanaethau FM perthnasol er mwyn gallu symud i brosesau trawsyrru DAB lleol cyffredinol.

Yn unol â hynny, am y rhesymau uchod, rydym wedi penderfynu peidio â derbyn cais MuxCo.